# Pontio Ysgolion De Gwynedd 2023/2024



**Strategaeth Bontio dalgylch De Meirionnydd**
**Yn weithredol o Fedi 2023**

Mae'r cynllun trosglwyddo hwn, a luniwyd yn ystod tymor yr Hydref, 2023, yn gytundeb ar y cyd rhwng yr ysgolion canlynol:

Ysgol Gynradd Penybryn
Ysgol Gynradd Craig y deryn
Ysgol Gynradd Ffederasiwn Dyffryn Dulas a Phennal
Ysgol Uwchradd Tywyn

Wrth lunio`r cynllun hwn, ystyriwyd barn disgyblion, rhieni a Chyrff Llywodraethol y pedwar ysgol.

Mae'r ddogfen hwn yn diwallu gofynion Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022 ('Rheoliadau 2022'). Mae wedi cael ei lunio ar y cyd gyda'r ysgolion cynradd gan roi ystyriaeth manwl i'r uchod, yn ogystal ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Bwriad y ddogfen hon yw i fanylu ar ein cynlluniau ar gyfer rheoli a chydlynu'r broses bontio. Mae'r cynllun yn amlinellu sut mae ysgolion y dalgylch yn bwriadu sichrau bod parhâd i'r dysgu rhwng y cynradd a'r uwchradd trwy gydweithio agos, a chyswllt cyson. Trwy hyn, ein nod yw bod cynnydd dysgwyr yn parhau yn ddi-dor rhwng blwyddyn 6 a 7.

Yn ychwanegol i hyn, mae trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau bod anghenion dysgu a lles pob dysgwr yn cael eu cefnogi wrth bontio.

Yn olaf, bydd y cynradd a'r uwchradd yn cydweithio yn agos er mwyn datblygu dealltwriaeth cyson o beth yw cynnydd a sut mae ei gefnogi trwy gydol taith pob dysgwyr ar hyd y continwwm dysgu yn ein ysgolion.

Ein nod cytun yw:

- Hyrwyddo dilyniant addysg rhwng y cyfnodau allweddol.
- Hyrwyddo a hybu gwaith ar draws y cyfnodau.

## Manylion

| Adran 1 - Rheoli a threfnu'r broses trosglwyddo | | | |
|---|---|---|---|
| **Nod** | **Dull Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Amseriad** |
| 1. Cynnal perthynas broffesiynol glos rhwng y ddwy sector. | 1. Cyd-gysylltydd cynradd-uwchradd y dalgylch yw Islwyn Phillips ag Ellyw Wynne Evans<br>2. Bydd cyfarfodydd pob hanner tymor er mwyn ystyried addasrwydd trefniadau'r strategaeth ac addasu ble fod angen. | 1.Islwyn<br>2. Ellyw | 2. Pob HT |
| Adran 2 - Anghenion darpar ddysgwyr | | | |
| 1. Sicrhau fod darpar ddysgwyr Ysgolion De Meirionnydd yn gyfarwydd gyda'r ysgol Uwchradd | 1. Bydd rhieni darpar ddysgwyr ysgol Uwchradd yn derbyn gwahoddiad i noson agored yn ystod y flwyddyn.<br>2. Dysgwyr blwyddyn 6 i ymweld ag Ysgol Uwchradd Tywyn yn rheolaidd.<br>3. Bydd y cyd-gysylltydd pontio (IP)yn ymweld â phob ysgol cynradd gyda'r bwriad o gyfarfod yr holl ddarpar ddysgwyr. | 1. IP<br>2. DT | 1. HT1<br>2. HT3<br>3. HT4<br>4. HT5<br>5. HT6 |
| 2. Sicrhau cefnogaeth lles addas ar gyfer holl ddarpar ddysgwyr. | 1. Bydd cyd-gysylltydd pontio  Ysgol Uwchradd Tywyn yn ymweld a'r ysgolion cynradd er mwyn casglu gwybodaeth am anghenion pob dysgwr gan gynnwys dysgwyr sy'n cael eu hystyried yn fregus neu gydag anghenion bugeiliol ychwanegol. Bydd cynlluniau penodol yn cael eu rhoi mewn lle yn dilyn yr ymweliadau hyn.<br>2. Bydd IP/BW yn croesawu a threfnu ymweliad i unrhyw ddysgwyr byddai'n elwa o gael cyfle i ymweld ag Ysgol Uwchradd Tywyn cyn HT6 | 1. IP<br>2. BW | 1. HT5<br>2. HT6 |
| 3. Sicrhau trosglwyddo effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY. | 1. Bydd y cyd-gysylltydd ADY (LW) yn:<br>a. ymweld a'r ysgolion cynradd er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o gefndir ac anghenion dysgwyr ag ADY.<br>b. mynychu adolygiadau dysgwyr blwyddyn 6 a chyfarfod athrawon y dysgwyr hynny.<br>c. cael copïau o gynlluniau addysgu unigol dysgwyr ac yn eu rhannu gydag athrawon blwyddyn 7.<br>d. darparu gwybodaeth am alluoedd dysgwyr blwyddyn 7 mewn darllen, ysgrifennu, sillafu a gwaith rhif i athrawon blwyddyn 7.<br>2. Trefnir fod rhai dysgwyr penodol yn ymweld ag YUT yn rheolaidd cyn y cyfnod pontio. | 1. IP<br>2. LW | 1. HT2 (adolygiadau BL6)<br>2. HT4 |
| 4. Sicrhau profiad pontio di-dôr i ddysgwyr fel bod modd iddynt barhau gyda'u dysgu yn syth | 1. Cyfarfodydd cyson rhwng yr ysgolion cynradd a'r uwchradd ble bydd trafodaethau cyson am:<br>a. ddatblygu dealltwriaeth cytun o gynnydd a sut mae ei | 1. DT<br>2. SN<br>3. NT | 1. Tymhorol |

<table>
<tr><td>ym mlwyddyn 7.</td><td>gefnogi.<br>b. sut mae tracio, monitro ac ymateb i wybodaeth am gynnydd dysgwyr.<br>2. Bydd cyfleoedd i'r ysgolion cynradd ac adrannau pynciol yr Ysgol Uwchradd i gyfarfod yn ystod y cylch dwy flynedd er mwyn dod i ddeall cwricwlwm eu gilydd yn well a chynllunio ar gyfer trosglwyddo di-dôr.</td><td>4. JB</td><td></td></tr>
<tr><td>5. Gwella profiadau dysgu ac addysgu trwy gyflwyno prosiectau ar y cyd.</td><td>1. Cynllunio a chyflwyno prosiectau ar y cyd. Gwahanol FDaPh i wneud hyn wrth weithio trwy'r cylch 2 flynedd.<br>2. Bydd yr Uwchradd o hyd yn croesawu ac yn ymateb i geisiadau gan ysgol gynradd i gydweithio ar brosiect penodol.</td><td>1. Arweinwyr MDaPh</td><td>1. Yn barhaol</td></tr>
<tr><td colspan="4" align="center">Adran 3 - Anghenion ymarferwyr</td></tr>
<tr><td>1. Gwella dealltwriaeth athrawon yr ysgol uwchradd o gwricwlwm yr ysgol gynradd, a bod dilyniant addas i'r cwricwlwm.</td><td>1. Cynnal cyfarfod rhwng athrawon pob maes dysgu o fewn cylchdro dwy flynedd.<br>2. Gweithredu unrhyw benderfyniadau yn dilyn y cyfarfod.<br>3. Cynnal cyfarfodydd pob hanner tymor rhwng yr ysgolion cynradd uwchradd.<br><br>Mae'r isod yn agenda posib i gyfarfodydd rhwng yr ysgolion cynradd ac adrannau'r uwchradd:<br>● Materion pynciol<br>● Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol<br>● Cydsafoni ac asesu<br>● Anawsterau posib i ddysgwyr wrth drosglwyddo i'r uwchradd<br>● Cyd-drafod a chynllunio'r cwricwlwm</td><td>1. Penaethiaid Dalgylch.<br>2. Cydlynwyr MDaPh</td><td>1.Cyson</td></tr>
<tr><td>2. Gwella safonau dysgu ac addysgu trwy rannu data.</td><td>1. Bydd yr ysgolion cynradd yn rhannu data gyda Ysgol Uwchradd Tywyn am bob dysgwr sy'n trosglwyddo. Bydd y data yn cynnwys:<br>a. Data cyrhaeddiad<br>b. Manylion am:<br>i. Ryw<br>ii. ADY<br>iii. SIY<br>iv. PYD<br>v. MaT<br>vi. Medd<br>vii. Lles<br>c. Barn yr ysgol am:<br>i. Ymdrech<br>ii. Ymddygiad<br>iii. Cynnydd<br>d. Data profion mewnol</td><td>1.Pennaethiaid Dalgylch<br>2.Cydlynwyr ADY</td><td>1. HT6<br>2. Cyson</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | e. Data profion cenedlaethol<br>f. Gwybodaeth llesiant gan gynnwys:<br>i. Presenoldeb<br>ii. Proffiliau Boxall<br>2. Cyfrifoldeb adrannau Ysgol Uwchradd Tywyn bydd yn edrych ar y data a chynllunio yn briodol ar gyfer anghenion pob dysgwr. | | |
| 3. Datblygu dealltwriaeth gytun o gynnydd a'i asesu fel rhan o Gwricwlwm i Gymru | 1. Cyfarfod yn gyson er mwyn trafod sut mae cynnydd dysgwyr yn cael ei asesu a'i gefnogi ym mhob ysgol. | 1. Athrawon a chydlynwyr | 1. Pob HT o fewn ysgolion unigol.<br>2. Unwaith y tymor ar y cyd |

| Hanner Tymor y Hydref | Hanner Tymor y Gaeaf | Hanner Tymor y Gwanwyn | Hanner tymor y Pasg | Hanner tymor yr Haf | Hanner tymor olaf |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | | | | |
| creu grŵp GOOGLE Classroom / TEAMS | | | | | |
| Noson agored | IP a BW yn ymweld a'r cynradd | | | Casglu data ac IP yn ymweld | 2 ddiwrnod trosglwyddo |
| | Gŵyl hoci gyda Tim hyfforddi Dysynni ac aelodau o flwyddyn 11 | | | | |
| | Ffair cefnogaeth | | | | |
| | | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | | | |
| | | Cerdd | | | |
| | | Adnabod disgyblion sydd yn bryderus | | BW yn ymweld a'r cynradd | Sesiynau trosglwyddo ychwanegol |
| | Adolygiadau | | | | Sesiynau trosglwyddo ychwanegol |
| | | | | Gweithdy drama ym mhob ysgol | |
| | | | | Iechyd a Lles – blwyddyn 10 yn hyfforddi blwyddyn 6 | |
| Mathemateg a rhifedd | | | | | |

Cynllun bras 2023-2024

| Amser | Gweithgareddau | Cyfarfodydd Ychwanegol |
|---|---|---|
| HT1 | 1. Cyfarfod cynradd/uwchradd<br>a. Diwrnodau pontio<br>b. Noswaith agored<br>c. Materion yn codi o ddisgyblion blwyddyn 6<br>2. Cyd-gynllunio prosiect traws-dalgylch rhwng athrawon bl6/uwchradd – Gweithdai Drama – Grant y Gymraeg<br>3. HMS mathemateg | • Cyfarfodydd Digidol |
| HT2 | 1. Adolygiadau blwyddyn 6 ADY (angen cynrychiolaeth uwchradd)<br>2. Cyfarfod cynradd/uwchradd<br>a. Trafod manylion y gweithdai cerdd technoleg cychod<br>3. Cynrychiolydd o'r uwchradd yn ymweld a'r cynradd – IP, BW<br>4. Creu Grwp Teams/ Google classrooms i rhannu adnoddau o fewn y Meysydd Dysgu<br>5. Ffair Lles – rhannu dillad- sefydliadau a elusennau yna i gefnogi | • Cwrs Coed y Brenin – pontio effeithiol<br>• Cyfarfodydd Digidol |
| HT3 | 1. Cyfarfod cynradd/uwchradd<br>a. Manylion trafod manylion y cynllun lles blwyddyn 6 gyda blwyddyn 10 yn arwain yr addysgu<br>2. Gweithdai cerdd<br>3. Sgwrs a thargedu dysgwyr ADY<br>a. Cyd gysylltydd uwchradd i adrodd i'r cynradd? Cyfarfod cyflwynwyr ADY y dalgylch | • Cyfarfod/deialog broffesiynol cynradd/uwchradd MDaPh Mathemateg |
| HT4 | 1. Cyfarfod cynradd/uwchradd<br>a. Trafod blaenoriaethau 2023/24 – gyda'r athrawon mathemateg ac athrawon blwyddyn 4, 5 a 6<br>2. Cydgysylltwr cynradd uwchradd a cydlynydd Lles i ymweld a'r cynradd<br>3. Dysgwyr ADY i gael ymweld Ysgol uwchradd<br>4. Cyd-gynllunio prosiect traws-dalgylch Drama<br>9-10/4/24 – PYB<br>11-12 – CYD<br>22-23 – YUT<br>24-25 – Pennal<br>29-30 – DDC | • Cyfarfod/deialog broffesiynol cynradd/uwchradd MDaPh Mathemateg |
| HT5 | 1. Cyfarfod cynradd/uwchradd<br>a. Blaenoriaethau 2023-24<br>2. Disgyblion blwyddyn 10 yn cynnal gweithdai lles i blwyddyn 6 yn y cynradd | |

| | | |
|---|---|---|
| | 3. Ymweliad Cydlynydd cynradd-Uwchradd a'r ysgolion cynradd<br>a. Sgyrsiau am gohort cyfan<br>b. Sgyrsiau am unigolion ADY | |
| HT6 | 1. Cyfarfod cynradd/uwchradd (dyddiad)<br>a. Adolygu a monitro effaith y cynllun pontio<br>b. Ystyried addasiadau ar gyfer 24-25<br>c. Cyd-gynllunio prosiect traws-dalgylch rhwng athrawon bl6/uwchradd<br>d. Eitemau eraill<br>2. Gweithdai lles i ddisgyblion blwyddyn 6 yn yr uwchradd<br>3. 2 diwrnod ymdrochi yn yr uwchradd<br>4. Rhieni yn ymweld a sgwrsio mewn parti gardd<br>5. Trosglwyddo data blwyddyn 6 | • Cyfarfod/deialog broffesiynol cynradd/uwchradd MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg – trafod themâu ar gyfer sesiynau 20023-24<br>○ |
| Cylch 2 | | • Cyfarfod/deialog broffesiynol cynradd/uwchradd MDaPh eraill i ddigwydd yng nghylch 2 |